Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Cynllun Gweithredu Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



# Manteisio i’r Eithaf ar Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd 2014-2020

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Diben ac amcanion strategol** | 6 |
| **Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) – Pa gyfleoedd sydd yna i Gymru?** | 8 |
| **Rhaglenni ETC yng Nghymru 2007-2013** | 13 |
| **Rhaglenni ETC yng Nghymru 2014-2020 – y rownd newydd** | 19 |
| **Cynllun gweithredu i ymgysylltu a llwyddo cymaint ag y bo modd** | 22 |
| **Atodiad A:** Prosiectau a'r arian a gafwyd fesul rhaglen – y sefyllfa ar 31 Awst, 2015. | 29 |
| **Atodiad B:** Enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus ETC 2007-2013. | 30 |
| **Atodiad C:** Crynodeb o weithgaredd thematig prosiectau ETC yng Nghymru yn ystod Rhaglenni 2007-2013. | 34 |
| **Atodiad D**: Amlinelliad o Raglenni ETC 2014-2020. | 35 |

# Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynllun gweithredu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar gyfer cymryd cymaint o ran ag y bo modd mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC). Mae'n ategu strategaeth UE Llywodraeth *'Cymru a'r Undeb Ewropeaidd'*[1].

1.2 Ein nod yw gwneud y gorau o'r manteision i Gymru drwy wneud y defnydd gorau o bob cyfle ar gyfer cydweithredu sydd o fewn fframwaith rhaglenni ETC.

1.3 Mae bron i £2.5 biliwn o gymorth ar gael i Gymru drwy fuddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn ystod cyfnod rhaglen 2014-2020. Mae'r cronfeydd hyn yn cefnogi rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru (ERDF ac ESF), Cynllun Datblygu Gwledig Cymru Gyfan (EAFRD) a rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Bydd cyllid ERDF ac ESF yn cefnogi twf economaidd a swyddi cynaliadwy drwy ymchwil ac arloesedd, cyllid busnes, TGCh a chysylltedd trafnidiaeth, ynni, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant. Bydd cyllid EAFRD yn canolbwyntio ar gystadleurwydd, yr amgylchedd a mynediad i wasanaethau; a bydd EMFF yn canolbwyntio ar bysgota cynaliadwy a thwf economaidd a swyddi drwy arallgyfeirio mewn cymunedau arfordirol.

1.4 Mae rhaglenni ETC (a elwir hefyd yn INTERREG) yn cynnig cyfleoedd i gefnogi twf a datblygiad economaidd cynaliadwy. Maent hefyd yn darparu'r gwerth ychwanegol o fantais ehangach sy'n deillio o fwy o gydweithrediad gyda rhanbarthau partner y tu hwnt i Gymru trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu gan, a dylanwadu ar, ddatblygiad polisïau mewn ymateb i heriau a rennir.

Bydd Cymru'n cymryd rhan yn y rhaglenni ETC canlynol yn 2014-2020:

- Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru;
- Rhaglen Ardal yr Iwerydd;
- Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop;
- INTERREG Ewrop;
- URBACT;
- ESPON;
- INTERACT

1.5 Cynllun Gweithredu yw'r ddogfen hon ar gyfer cryfhau ymgysylltiad Cymru mewn rhaglenni ETC. Bydd yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddiweddaru i adlewyrchu tueddiadau economaidd-gymdeithasol, blaenoriaethau sy'n dod i'r

[1] http://gov.wales/topics/international/publications/eustrategy2012/?skip=1&lang=cy

amlwg a datblygiadau ym mholisïau a rhaglenni ETC y mae partneriaid yng Nghymru yn gallu cymryd rhan ynddynt.

1.6 Mae **Atodiad D** y Cynllun Gweithredu’n cynnwys prif fanylion y rhaglenni hyn ynghyd â dolenni i wefannau’r Awdurdod Rheoli perthnasol sy’n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl.

1.7 Mae'r Cynllun Gweithredu’n ystyried sylwadau ac argymhellion ar ETC gan Bwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, canfyddiadau Astudiaeth Gwmpasu ETC a gomisiynwyd gan WEFO i ddadansoddi'r manteision a'r rhwystrau o ran ymgysylltu mewn rhaglenni ETC, a chyhoeddwyd canlyniadau hynny yn hydref 2014. Mae hefyd yn adlewyrchu cyngor a dderbyniwyd gan bartneriaid a gyfrannodd at Ffrwd Waith ETC, a sefydlwyd i gefnogi cyfraniad Cymru at ddatblygiad y rhaglenni ETC newydd.




Energetic Algae

# Diben - Amcanion Strategol

2.1 **Nod** y Cynllun Gweithredu hwn yw sicrhau'r budd mwyaf i Gymru yn sgil ymgysylltu â rhaglenni ETC mewn ffyrdd a fydd yn caniatáu i ni ddysgu gan, rhannu gwybodaeth a phrofiadau gyda, a dylanwadu ar ranbarthau UE eraill yn ystod cyfnod rhaglen 2014-2020.

2.2 Dyma'r **Canlyniadau** y bwriadwn eu cyflawni:

- Cynyddu nifer y sefydliadau yng Nghymru sy'n ymgysylltu, ac yn cael budd o gydweithredu ar draws yr UE 20%;
- Cynnydd o 40% yng ngwerth yr ERDF sy'n dod i Gymru o gymharu â rhaglenni ETC 2007-2013
- Ffocws cryfach ar fuddsoddiadau ETC sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd trawsffiniol, trawswladol, rhanbarthol ac Ewrop gyfan ym meysydd thematig:

    - Ymchwil ac arloesedd
    - Gallu cystadleuol BBaChau
    - Economi carbon isel
    - Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
    - Effeithlonrwydd yr amgylchedd ac adnoddau (gan gynnwys adnoddau diwylliannol a naturiol)
    - Datblygu trefol

2.3 Ein **Hamcanion** yw:

Sicrhau cydweithredu agosach a chryfhau partneriaethau rhwng sefydliadau yng Nghymru ac ar draws yr UE drwy:

- Cynyddu integreiddio a gwybodaeth am raglenni ETC a'u potensial i ychwanegu gwerth at weithredu'r polisi o fewn Llywodraeth Cymru ac ymhlith eraill, a thrwy hynny annog ymgysylltiad rhyngwladol;

- Cynyddu proffil ac ymwybyddiaeth o raglenni ETC ac annog partneriaid yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o bob cyfle sydd ar gael;

- Dylanwadu ar ddatblygiad polisïau a rhaglenni ETC drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig y DU ac aelod-wladwriaethau a rhanbarthau eraill yr UE mewn rhaglenni trawswladol a rhyngranbarthol i godi proffil Cymru:

- Cryfhau'r gefnogaeth i sefydliadau Cymru o ran cael mynediad i raglenni ETC gan gynnwys helpu i chwilio am bartneriaid;

- Arwain y gwaith o weithredu Rhaglen Gydweithredu Drawsffiniol Iwerddon Cymru 2014-2020 gan weithio'n agos gyda'n partneriaid

Gwyddelig i sicrhau y cyflwynir y rhaglen yn effeithiol, y manteisir i'r eithaf ar y cronfeydd, ac y cyflawnir canlyniadau a gytunwyd.





WIN-IPT

# Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd - Pa gyfleoedd sydd yna i Gymru?

3.1 **Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd** (ETC), a elwir yn INTERREG hefyd, yw un o ddau nod Polisi Cydlyniant, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer rhoi camau gweithredu ar y cyd ar waith yn ogystal â chyfnewid polisïau rhwng cyfranogwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Aelod-wladwriaethau'r UE. Amcan cyffredinol ETC yw hyrwyddo datblygiad economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol cytûn yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ei gyfanrwydd. Amcan ETC yw ceisio cyflawni hyn drwy gydweithredu agos rhwng partneriaid ar draws yr UE i ddod o hyd i atebion cyffredin i heriau cyffredin.

3.2 Ers ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl, mae ETC wedi gwneud cynnydd sylweddol o fod yn Fenter Gymunedol a oedd yn werth rhyw 1 biliwn ECU (Uned Arian Ewropeaidd)[2] ar draws nifer cyfyngedig o Aelod-wladwriaethau, i fod yn adnodd allweddol yn yr UE i hyrwyddo a chefnogi cydweithredu ar draws ffiniau. Mae pumed rownd o raglenni (y cyfeirir atynt gan amlaf fel INTERREG V), sy'n werth €10 biliwn yn y cyfnod 2014-2020, gan gwmpasu holl diriogaeth yr UE o 28 Aelod-wladwriaeth ac a gefnogir gan Reoliadau penodol o eiddo'r UE.

3.3 Cafodd cyflawniadau "25 mlynedd o INTERREG" eu cydnabod mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Lwcsembwrg ar 15-16 Medi 2015 a drefnwyd ar y cyd gan Lywyddiaeth Lwcsembwrg o'r Cyngor ynghyd â'r Comisiwn Ewropeaidd a'r rhaglen INTERACT[3].

3.4 Mae ETC wedi'i ddatblygu o amgylch tair elfen o gydweithredu:

***Rhaglenni Trawsffiniol*** *(elfen A)*

Mae cydweithredu trawsffiniol yn helpu i drawsnewid rhanbarthau sydd wedi'u lleoli ar y naill ochr a'r llall i ffiniau tir neu forol mewnol neu allanol yr Undeb Ewropeaidd, er enghraifft ffin y môr rhwng Iwerddon a Chymru. Nod cydweithredu trawsffiniol yw mynd i'r afael â heriau cyffredin a nodwyd ar y cyd yn rhanbarthau'r ffin, gan saernïo cydweithredu rhwng rhanbarthau cyfagos ac i fanteisio ar botensial ar gyfer twf sydd heb ei gyffwrdd.

Gyda'i gilydd, mae 60 o raglenni trawsffiniol ar hyd 38 o ffiniau mewnol yn yr Undeb Ewropeaidd. Y rhaglen drawsffiniol a fydd yn gweithredu yng Nghymru yn 2014-2020 yw **Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru**.

---

[2] tua €1 biliwn yn 1990
[3] http://ec.europa.eu/regional_policy/index.cfm/en/policy/cooperation/european-territorial/interreg25years/

***Rhaglenni trawswladol*** *(elfen B)*

Mae cydweithredu trawswladol yn hybu cydweithredu ymhlith rhanbarthau mwy Ewrop, gan gynnwys y rhai o amgylch basnau môr neu gadwyni o fynyddoedd, ac yn hwyluso ymatebion strategol cydlynol i heriau cyffredin gyda'r nod o sicrhau mwy o integreiddio tiriogaethol. Mae'r rhaglenni'n cynnwys rhanbarthau o nifer o wledydd yr UE, a'u nod yw hyrwyddo cydweithrediad mwy effeithiol a datblygu rhanbarthol o fewn yr Undeb trwy ddefnyddio ymateb strategol ar y cyd i fynd i'r afael â materion cyffredin ar draws y tiriogaethau perthnasol.

Gyda'i gilydd, mae 15 o raglenni trawswladol sy'n cwmpasu ardaloedd mwy o gydweithredu. Y rhaglenni trawswladol sy'n cwmpasu Cymru gyfan yn 2014-2020 yw:

- **Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop**
- **Rhaglen Ardal yr Iwerydd.**



MAREN

***Rhaglenni Rhyngranbarthol*** *(elfen C)*

> Mae cydweithredu rhyngranbarthol yn darparu fframwaith ar gyfer cyfnewid profiadau rhwng cyfranogwyr lleol a rhanbarthol ar draws Ewrop er mwyn cyfrannu at strategaethau'r UE ar dwf, swyddi a datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, mae'n ceisio lleihau gwahaniaethau drwy baru rhanbarthau llai profiadol gyda rhanbarthau mwy datblygedig yn y gwahanol feysydd polisi ac yn cefnogi cyfnewid polisïau a datblygu rhwydweithiau i sbarduno arferion da a hwyluso trosglwyddo profiad ar draws rhanbarthau'r UE.

Mae pedair rhaglen ryngranbarthol yn gweithredu ar lefel traws-Ewropeaidd, sy'n cynnwys pob un o 28 Aelod-wladwriaeth yr EU. Y rhaglenni rhyngranbarthol sy’n cwmpasu Cymru gyfan yn 2014-2020 yw:


- **Rhaglen INTERREG EWROP**
- **Rhaglen URBACT III**
- **Rhaglen Gydweithredu ESPON 2020**
- **Rhaglen INTERACT.**

Mae cyfres o 12 IPA (Offeryn ar gyfer Cymorth Cyn Ymuno) ac 16 rhaglen ENI (Offeryn Cymdogaeth Ewropeaidd) yn cwblhau'r darlun cyffredinol [4].

3.5 Mae’r ETC wedi cael ei ail-lunio yn unol â chynllun newydd Polisi Cydlyniant Ewropeaidd 2014-2020 i sicrhau y gwneir cyfraniad effeithiol gan y rhaglenni i dwf clyfar, cynaliadwy a chynhwysol a'r targedau sydd yn Ewrop 2020. Disgwylir i Raglenni ETC esblygu er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o fuddsoddiadau a ffocws cryfach ar yr effaith ar y tiriogaethau perthnasol. Mae elfennau allweddol wrth gynllunio a gweithredu Rhaglenni ETC 2014-2020 yn cynnwys canolbwyntio adnoddau, symleiddio a ffocws clir ar gyfeiriad canlyniadau.

3.6 Mae pumed rownd rhaglenni ETC (INTERREG V) wedi’i datblygu ar sail yr 11 Blaenoriaeth Buddsoddi sydd yn y Rheoliad ERDF gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Ewrop 2020. Mae o leiaf 80% o'r gyllideb ar gyfer pob rhaglen gydweithredu wedi gorfod canolbwyntio ar uchafswm o bedwar amcan thematig o blith yr un ar ddeg blaenoriaeth o eiddo’r UE:

[4] Mae'r **Offeryn ar gyfer Cymorth Cyn Ymuno (IPA)** yn seiliedig ar bartneriaethau gyda'r gwledydd sydd wedi gwneud cais i ymuno â’r UE - Cyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia, Croatia, a Thwrci - a gwledydd a allai fod yn ddarpar ymgeiswyr - Albania, Bosnia a Herzegovina, Montenegro a Serbia. Mae’r **Offeryn Cymdogaeth a Phartneriaeth Ewropeaidd (ENPI)** yn hyrwyddo cydweithredu ac integreiddio economaidd rhwng yr UE a gwledydd sy'n bartneriaid - Algeria, Armenia, Azerbaijan, Belarws, yr Aifft, Georgia, Israel, Gwlad yr Iorddonen, Libanus, Libya, Moldova, Morocco, Awdurdod Palesteina, Ffederasiwn Rwsia, Syria, Tunisia, ac Wcráin. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan DG Regio: http://ec.europa.eu/regional_policy/en/policy/cooperation/european-territorial/outside-the-eu/




# Pam mae ETC bwysig i Gymru?

3.7 Mae Cymru'n wlad fechan ar gyrion tir mawr Ewrop. Mae'n parhau i wynebu heriau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol na all eu hwynebu ar ei phen ei hun. Mae'r byd yn lle llai, mae yna economi fyd-eang lle mae'r gystadleuaeth yn ffyrnig ac mae Cymru'n rhan o Undeb Ewropeaidd sydd, gyda'i gilydd, yn wynebu problemau a phwysau cyffredin.

3.8 Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn cynnig llwybr lle gall Cymru ysgogi twf clyfar, cynaliadwy a chynhwysol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau EU2020 o fewn ei thiriogaeth ei hun.

3.9 Mae Rhaglenni ETC yn cynnig cyfleoedd ehangach i symud buddiannau Cymru yn eu blaenau mewn ffyrdd sydd yn gyson â *Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd* - Strategaeth UE Llywodraeth Cymru a'i Hagenda Ryngwladol - *Cymru yn y Byd*. Gall gweithgarwch rhaglenni ETC yng Nghymru gyfrannu hefyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

3.10 Mae rhaglenni ETC yn darparu fframwaith ar gyfer partneriaid yng Nghymru i edrych am allan y tu hwnt i ffiniau naturiol, i gydweithredu â rhanbarthau eraill er mwyn mynd i'r afael â heriau sydd o ddiddordeb cyffredin, manteisio ar botensial heb ei gyffwrdd, rhannu profiadau ac arferion gorau a datblygu atebion ar y cyd.

3.11 Felly, mae gan holl fframwaith ETC werth ychwanegol amlwg i Gymru, nid yn unig yng nghyd-destun cael mynediad at gyfleoedd ariannu ychwanegol gan raglenni ETC y tu hwnt rhai sy'n gweithredu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol, ond wrth ryddhau potensial i ysgogi meddwl y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a chreu, cydlynu a chynnal partneriaethau rhyngwladol.


3.12 Gall y rhaglenni fynd i'r afael â materion sydd o natur na ellir ymdrin yn foddhaol â nhw o fewn un Aelod-wladwriaeth, gan ysgogi cydweithredu ar heriau lle gall safbwynt cyfunol gael mwy o ddylanwad ar agendâu rhanbarthol, cenedlaethol a'r UE. Gall y gweithgaredd cydweithredol hwn ei hun wella ansawdd canlyniadau ac yn ei dro gall hynny fod yn berthnasol i

ardaloedd cydweithredu ehangach a thu hwnt, gan y gall fod ganddynt werth trosglwyddadwy er budd rhanbarthau ac Aelod-wladwriaethau eraill.

3.13 Mae gan raglenni ETC gyfyngiadau o ran graddfa a chwmpas ac nid ydynt yn mynd i gael effaith sylweddol ar faterion o bwys yn economaidd a rhai’n ymwneud â’r farchnad lafur fel dileu diweithdra neu sicrhau UE sy’n garbon niwtral; ni allant chwaith ymyrryd mewn buddsoddiad isadeiledd ar raddfa fawr. Fodd bynnag, gallant weithredu fel galluogwr, trwy symbylu syniadau i brofi a hyrwyddo arferion gorau o Gymru ac i ddysgu oddi wrth, a chael mynediad i, arbenigedd rhyngwladol o ranbarthau eraill yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn amgylchedd economaidd lle mae rhyngwladoli yn fwyfwy hanfodol.

3.14 Gall rhaglenni ETC ysgogi arloesedd drwy'r gallu i dreialu a gweithio ar syniadau, cyflwyno gweithgareddau gan gynnwys datblygu a phrofi gwasanaethau, cynhyrchion, prosesau a pholisïau gan ddod â manteision ychwanegol i’n sefydliadau, ein pobl, ein busnesau, ein cymunedau ac economi Cymru. Yn y modd hwn, gall gweithgareddau ETC ategu gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglenni rhanbarthol prif ffrwd yn fwy effeithiol.

3.15 Rydym yn awyddus i godi'r safon yn uwch o ran ymgysylltu gan Gymru, helpu i feithrin esblygiad pellach ETC ac adeiladu ar y cynnydd presennol trwy chwarae rhan allweddol yn y rhaglenni olynol.



Arcopol

# Rhaglenni ETC yng Nghymru 2007-2013

4.1 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y Rhaglenni ETC yn elfen hanfodol o'n hymdrechion i feithrin perthynas ag eraill, rhannu arferion gorau a dysgu gan ranbarthau eraill.

4.2 Ar 9 Mai 2012, lansiodd Prif Weinidog Cymru'r Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer yr UE - Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio'r angen i barhau i weithio i godi mwy o ymwybyddiaeth o Gymru yn yr UE drwy hyrwyddo'r gorau o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Bydd adeiladu ar lefelau ymgysylltu gan bartneriaid yng Nghymru yn y rhaglenni ETC olynol ar gyfer 2014-2020 yn cyfrannu at yr amcan hwn.

4.3 Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hagenda Ryngwladol - Cymru yn y Byd[5]. Mae *Cymru yn y Byd* yn cydnabod cyfraniad Rhaglenni ETC at gryfhau cysylltiadau â rhanbarthau yn yr UE yn ystod cyfnod rhaglen 2007-2013.

4.4 Gyda'i gilydd buddsoddodd Rhaglenni ETC 2007-2013 tua €1.4 biliwn gan gynnwys € 885 miliwn o ERDF ar draws yr UE.  Yng Nghymru roedd partneriaid wedi ymgysylltu â phum prif Raglen ETC ac roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector a oedd yn cymryd rhan weithredol mewn 94 o brosiectau cydweithredu. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn oedd €154 miliwn o ERDF, ac mae € 43 miliwn o'r buddsoddiad ERDF wedi dod i Gymru.

4.5 Perfformiodd Cymru'n dda. Yn Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru, bu partneriaid o Gymru yn gweithio'n agos gyda'r rhai yn Iwerddon yn rhannu'r cyllid oedd ar gael. Yn y rhaglenni trawswladol, ERDF yng Nghymru (fel canran o gymharu â'r boblogaeth) yw'r uchaf yn y DU ar hyn o bryd ar gyfer rhaglen Ardal yr Iwerydd ac mae'n cymharu'n ffafriol iawn â phob un o ardaloedd eraill yr UE sy'n cymryd rhan yn rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop.

Mae **Atodiad A** y Cynllun Gweithredu hwn yn rhoi dadansoddiad o'r prosiectau a'r arian a gafwyd fesul rhaglen fel yr oedd ar 31 Awst, 2015.

Mae **Atodiad B** y Cynllun Gweithredu hwn yn rhoi gwybodaeth am rai o brosiectau llwyddiannus 2007-2013 yng Nghymru.

---

[5] Dolen i Agenda Ryngwladol Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/international/publications/international-agenda/?lang=cy

| Rhaglen | Nifer y Prosiectau | Cyfanswm ERDF i Gymru (€) |
|---|---|---|
| Iwerddon Cymru (trawsffiniol) | 41 | 27,171,740 |
| Ardal yr Iwerydd (trawswladol) | 21 | 5,107,567 |
| NWE (trawswladol) | 17 | 8,712,129 |
| Interreg IVC (rhyngranbarthol) | 13 | 2,080,936 |
| URBACT (rhyngranbarthol) | 2 | 10,000 |
| CYFANSWM | 94 | 43,082,372 |

4.6 Mae manylion pellach am y sefydliadau o Gymru sy'n cymryd rhan yn rhaglenni 2007-2013, ynghyd â gwybodaeth am bartneriaid rhyngwladol, gweithgaredd prosiectau a chostau ar gael ar dudalennau gwe WEFO[6].

4.7 Mae'r siart yn **Atodiad C** yn rhoi crynodeb o weithgaredd thematig prosiectau ETC yng Nghymru yn ystod Rhaglenni 2007-2013.

**Gwersi a ddysgwyd yn ystod 2007-2013**

4.8 Yn ei adroddiad yn 2011 ar gyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE, argymhellodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strategaeth ar gyfer cryfhau cydweithredu â chenhedloedd a rhanbarthau eraill yr UE drwy fanteisio ar botensial y rhaglenni Cydgyfeirio rhanbarthol a Chystadleurwydd rhanbarthol ERDF ac ESF yng Nghymru ar gyfer 2007-2013 ynghyd ag archwilio'r cwmpas ar gyfer partneriaethau ar brosiectau wedi'u hariannu, yn enwedig gyda'r dinasoedd a'r rhanbarthau hynny lle mae trefniadau gweithio i'w cael eisoes, gan gynnwys drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a Gefeillio.

4.9 Cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ar gyfleoedd ariannu'r UE 2014-2020 (Gorffennaf 2014)[7]. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau allweddol am Raglenni ETC:

[6] http://wefo.gov.wales/programmes/20072013/europeancooperation/?lang=cy
[7] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s29432/Adroddiad%20-%20Gorffennaf%202014.pdf

- Mae cyfleoedd strategol i Lywodraeth Cymru gymryd rhan mewn rhaglenni ETC i lywio polisi ac i fanteisio ar arferion da o brosiectau ETC;

- Dylid rhoi mwy o sylw i'r cysylltiadau rhwng polisïau Ewropeaidd, rhaglenni ETC a rhaglenni a pholisïau (eraill) yng Nghymru;

- Gall rhaglenni cydweithredu rhyngranbarthol ddarparu fframwaith ar gyfer dysgu gwersi a'u prif ffrydio fel rhan o swyddogaethau sefydliadol, er enghraifft, o fewn awdurdodau lleol;

- Gan gydnabod bod Cymru'n cynnal lefel dda o gyfranogiad, mae cyfleoedd i gydgysylltu'n fwy effeithiol, er enghraifft gyda Swyddfa Cymru ym Mrwsel;

- Dylid manteisio ar gyfleoedd i lunio a dylanwadu ar gynnwys rhaglenni olynol ETC 2014-2020;

- Gellid gwneud mwy i fanteisio ar arbenigedd a phrofiad o weithio gyda rhaglenni ETC, arddangos enghreifftiau o brosiectau da a rhannu gwersi a ddysgwyd;

- Dylid datblygu cysylltiadau strategol rhwng rhaglenni ETC a rhaglenni ESIF prif ffrwd yn well i gael y buddsoddiad mwyaf posibl yng Nghymru;

- Dylid datblygu presenoldeb cyswllt hawdd ei adnabod i Gymru i gynorthwyo gyda'r gwaith o chwilio am bartneriaid;

- Dylid rhoi mwy o gymorth i bartneriaid yn y trydydd sector.




SEE – Sharing Experience Europe

4.10 Mae'r adroddiad hwn yn gwneud yr argymhellion canlynol hefyd sy'n ymdrin â meysydd ehangach, ond sy’n bwysig o ran manteisio i’r eithaf ar ymgysylltu ag ETC yn 2014-2020.

- Meithrin partneriaethau rhwng rhanddeiliaid ar draws y sectorau addysg uwch a phellach, busnesau a'r trydydd sector i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da.

- Gweithio gyda llywodraeth leol i ddwyn pobl ynghyd sydd â'r arbenigedd perthnasol i ddatblygu cynllun gweithredu i gryfhau a hybu cyfranogiad awdurdodau lleol yn uniongyrchol yn y gwaith ehangach o ddatblygu a chychwyn ffrydiau polisi ac arian Ewropeaidd ac er mwyn integreiddio'r gwahanol gronfeydd i sicrhau’r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Cymru.

***Astudiaeth Gwmpasu ETC a Ffrwd Waith ETC***

4.11 Cyhoeddwyd Astudiaeth Gwmpasu’r ETC a gomisiynwyd gan WEFO ym mis Medi 2014. Archwiliodd yr astudiaeth brofiadau sefydliadau yng Nghymru a'r manteision a'r rhwystrau wrth gymryd rhan mewn rhaglenni ETC.

4.12 Mae'r Astudiaeth yn rhoi sylfaen gadarn i ni fyfyrio ar brofiadau partneriaid sy'n ymwneud â rhaglenni ETC a rhai syniadau am y cymorth sydd ei angen i sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru’n manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd o fewn y rhaglenni.

4.13 Gwnaed argymhellion yr Astudiaeth dan dair thema drosfwaol:

**Gwneud y gorau o bob cyfle i ymgysylltu'n strategol ar draws meysydd polisi a Rhaglenni a gwella sut maen nhw’n asio gydag amcanion a gweithgareddau sefydliadau**

- Gyda’i gilydd, dylai Llywodraeth Cymru a WEFO egluro i ba raddau y dylai cyfranogiad Cymru mewn prosiectau ETC gael ei integreiddio’n strategol gyda sbardunau polisi Llywodraeth Cymru;

- Cychwyn 'cronfa her' a fydd yn darparu elfen o arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy’n mynd ymlaen i Raglenni ETC yn y dyfodol sy’n bodloni blaenoriaethau polisi penodol a thryloyw Llywodraeth Cymru;

- Dylai gwybodaeth am brosiectau a chanlyniadau ETC i gyfranogwyr o Gymru gael ei rhannu'n ehangach gydag adrannau Llywodraeth Cymru ac asiantaethau'r llywodraeth.

**Cefnogi datblygiad gallu sefydliadol a'r aeddfedrwydd i gymryd rhan mewn Rhaglenni ETC a chysylltiadau rhyngwladol eraill;**

- Cynorthwyo sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau ETC a gweithgareddau cydweithredu eraill yr UE

trwy hwyluso partneriaethau rhwng sefydliadau mwy profiadol sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ETC gyda sefydliadau sy'n llai profiadol ym maes ETC;

- Gwella'r ‘froceriaeth’ ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu prosiectau ar draws sefydliadau, sectorau a Rhaglenni;

- Creu ‘arddangosiad’ o brosiectau a phartneriaethau ETC llwyddiannus.

**Cefnogi cyfranogiad mewn rhaglenni ETC a Rhaglenni eraill i gyfranogwyr o Gymru.**

- Dylai WEFO barhau i ddefnyddio ei rôl i helpu i lunio Rhaglenni ETC er mwyn sicrhau mwy o unffurfiaeth rhwng Rhaglenni;

- Datblygu cysylltiadau a chyngor unigol ar draws holl Raglenni'r UE o fewn WEFO a meithrin rhwydweithiau isranbarthol er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiad;

- Mae angen cymorth ac anogaeth mwy cadarnhaol ar gyfleoedd trawswladol o bob rhan o WEFO gyda mwy o hyblygrwydd wrth arfarnu prosiectau prif ffrwd sydd ag elfen drawswladol.

4.14 Mae manylion y fethodoleg weithredol, astudiaethau achos a chanfyddiadau penodol i’w gweld ar dudalennau gwe WEFO[8].

4.15 Mae ffrwd waith ETC yng Nghymru, a gomisiynwyd i helpu i gynllunio a pharatoi er mwyn i Gymru gymryd rhan yn rhaglenni 2014-2020, yn darparu syniadau a dirnadaeth ar gyfer blaenoriaethau trafod ac ymgysylltu yn y dyfodol gyda rhanbarthau eraill yr UE i ddatblygu ymgysylltiad. Y negeseuon allweddol oedd:

- Roedd angen i raglenni ETC ganolbwyntio mwy ar elw cyfunol drwy ganolbwyntio ar themâu penodol oedd a'r potensial mwyaf o ddod o hyd i atebion i heriau a datblygu arferion gorau;

- Ffocws ETC a awgrymwyd yng Nghymru ar Amcanion Thematig yn targedu ymchwil ac arloesedd a chystadleurwydd BBaChau â gweithgarwch posibl o fewn Amcanion Thematig yn cwmpasu'r economi carbon isel a'r amgylchedd ac effeithlonrwydd adnoddau. Er nad oedd mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd wedi’i nodi’n benodol gan y ffrwd Waith fel blaenoriaeth ETC allweddol gyffredinol, cydnabuwyd y gallai’r thema hon fod yn elfen gref yn rhaglen newydd Iwerddon Cymru. Dylai cynhwysiant cymdeithasol gael ei integreiddio i raglenni yn y dyfodol hefyd, o bosibl fel blaenoriaeth lorweddol;

[8] http://wefo.gov.wales/publications/guidance-and-publications/Publications14-20/monitoringevaluation/programmeevaluations/etcscopingstudy/?lang=cy.

- Yr angen i newid y canfyddiad o ETC a'r dimensiwn rhyngwladol sydd ei angen mewn llawer o sefydliadau i fod yn rhan annatod yn hytrach nag elfen ychwanegol;

- Yr angen i adolygu a chynyddu ffyrdd o gyfathrebu llwyddiant a lledaenu canlyniadau drwy raglenni ETC, gan gynyddu proffil rhaglenni ETC yng Nghymru;

- Dylid annog clystyru a gwella cysylltiad rhwng y rhaglenni ETC amrywiol;

- Roedd angen mynd i'r afael â'r agwedd dameidiog at ETC ar draws y sectorau amrywiol trwy ddod ag ymarferwyr at ei gilydd;

- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor penodol i Gymru i randdeiliaid yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â rhaglenni trawswladol a rhyngranbarthol;

- Dylid rhoi sylw i drosglwyddo arferion da rhwng rhaglenni ETC a rhaglenni rhanbarthol.




SEE – Sharing Experience Europe

# Rhaglenni ETC 2014-2020 – y Rownd Newydd

5.1 Gyda'i gilydd, mae'r Rhaglenni ETC y bydd Cymru'n cymryd rhan ynddynt yn 2014-2020 yn werth €1.552 biliwn, gydag €1.128 biliwn ar gael o ERDF i ranbarthau sy'n cymryd rhan.

5.2 Cyfrifwyd cyfanswm gwerthoedd rhaglenni ERDF drwy ychwanegu'r dyraniadau hynny a gytunwyd gan bob un o'r Aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u cadarnhau bellach ar gyfer pob un o'r rhaglenni y bydd Cymru'n cymryd rhan ynddynt.

5.3 Mae'r rheoliad ETC yn caniatáu ar gyfer cyfradd ymyrraeth ERDF o hyd at 85% o gyfanswm y gwariant cymwys i'w gymhwyso i brosiectau ETC. Ar gyfer y rhaglenni y mae Cymru'n cymryd rhan ynddynt, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ceisio - lle bo modd - i wneud y gorau o gyfraddau ymyrraeth ERDF. Mae gan hyn y potensial i leihau'r baich arian cyfatebol ar fuddiolwyr. Fodd bynnag, gan fod y rhain yn rhaglenni cydweithredu, mae cyfraddau ymyrraeth wedi gorfod cael eu trafod a'u cytuno gan yr holl Aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan.

5.4 Mae cyfraddau ymyrraeth ERDF ar gyfer pob rhaglen wedi cael eu penderfynu gan Grwpiau Cynllunio perthnasol 2014-2020 ar gyfer pob rhaglen. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| Rhaglen | Cyfanswm gwerth rhaglen (€m) | Cyfanswm ERDF (€m) | Uchafswm cyfradd ERDF |
|---|---|---|---|
| Iwerddon Cymru (trawsffiniol) | 99 | 79 | 80% |
| Ardal yr Iwerydd (trawswladol) | 185 | 140 | 75% |
| Gogledd-orllewin Ewrop (trawswladol) | 648 | 396 | 60% |
| INTERREG EWROP (rhyngranbarthol) | 426 | 359 | 85% |
| URBACT (rhyngranbarthol) | 96 | 74 | 77% |
| ESPON (rhyngranbarthol) | 52 | 41 | 80% |
| INTERACT (rhyngranbarthol) | 46 | 39 | 85% |
| Cyfanswm | 1552 | 1128 | |

**Datblygiad Rhaglenni ETC 2014-2020**

*Canolbwyntio a Ffocws*

5.5 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cyfeirio eisoes at fwy o ganolbwyntio a thargedu mewn rhaglenni ETC yn 2014-2020. Mae pob rhaglen wedi nodi'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol a'r anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r tiriogaethau perthnasol. Mae Grwpiau Cynllunio Rhaglenni, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi datblygu rhaglenni Echelau Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol i ymdrin â'r meysydd hynny lle y gall y rhaglenni gyda'i gilydd ychwanegu'r gwerth mwyaf trwy gydweithredu.

5.6 Mae cydnabyddiaeth eang bod angen i raglenni ETC gael mwy o ffocws a chanolbwyntio mwy er mwyn dangos canlyniadau ac effaith buddsoddiadau mewn ffordd fwy effeithiol.

5.7 Er bod enghreifftiau da o brosiectau cydweithredu sy'n gweithio mewn meysydd diddorol, yn gyffredinol, gellid dadlau bod rhaglenni 2007-2013 yn rhy eang a heb ffocws a bod diffyg canlyniadau pendant gan y prosiectau.

5.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y DU i drafod rhai egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu yn y dyfodol a gyda'n gilydd rydym wedi pwyso ar Aelod-wladwriaethau eraill sy'n cymryd rhan i dargedu meysydd allweddol o ddatblygiad yn y dyfodol:

- Diffinio amcanion allweddol y rhaglenni a'r hyn yr ydym am iddynt ei gyflawni;
- Targedu buddsoddiadau;
- Mabwysiadu'r rheolau a'r prosesau cywir;
- Sicrhau llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau cryfach.

5.9 Mae hyn wedi arwain at greu fframweithiau rhaglen sy'n cyd-fynd â pholisïau, buddiannau a blaenoriaethau Cymru a'r DU, gan ystyried yr angen i negodi rhaglenni ar draws yr Aelod-wladwriaethau a sicrhau cyfaddawd boddhaol. Mae cynnwys y rhaglenni newydd yn cyd-fynd yn fras â'r blaenoriaethau hynny a nodwyd gan ffrwd waith ETC yng Nghymru ac mae pob rhaglen ETC wedi bod yn destun prosesau ymgynghori ffurfiol.

5.10 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob rhaglen ETC ganolbwyntio'n effeithiol ar weithgareddau lle gellir sicrhau'r gwerth mwyaf er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl. Gall rhaglenni ETC ategu ac adeiladu ar ddulliau ariannu eraill yr UE, ac elwa ar y manteision o gydweithredu trwy flaenoriaethau a rennir gyda rhanbarthau eraill yr UE er lles cyffredinol Cymru.

*Perthynas â Strategaethau Llywodraeth Cymru*

5.11 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r egwyddorion sylfaenol sef y dylai rhaglenni ETC 2014-2020 ganolbwyntio ar ddatblygu economaidd a swyddi a

thwf cynaliadwy, dylent ymdrechu i sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer canlyniadau, canlyniadau pendant a'r effaith fwyaf bosibl, a dylent ganolbwyntio ar flaenoriaethau a rennir sy'n darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf. Bydd disgwyl i weithgareddau ETC wella arferion rhaglenni prif ffrwd lle bo hyn yn briodol. Er bod effaith yn bwysig, bydd sylw dyledus yn cael ei roi i raddfa gweithredu a'r hyn y gall y rhaglenni ETC ei gyflawni mewn gwirionedd.

5.12 Bydd yn rhaid i brosiectau sy'n cael eu datblygu yng Nghymru gyd-fynd â'r egwyddorion hyn a dangos bod yr her dan sylw a'u hymateb i'r her honno drwy gyfrwng gweithgareddau arfaethedig yn wirioneddol drawsffiniol, trawswladol neu ryngranbarthol - dylem barhau i ofyn i bartneriaid - *pam ETC?*

5.13 Byddwn yn cael y gorau o bob rhaglen ETC mae Cymru'n gymwys i gymryd rhan ynddi gan roi blaenoriaeth i'r rhaglenni hynny sydd â'r potensial i sicrhau'r budd economaidd mwyaf i Gymru.

*Gweithgarwch Trawswladol mewn Rhaglenni eraill a Ariennir gan yr UE*

5.14 Yn ogystal ag ymgysylltu yn y Rhaglenni ETC sydd wedi'u targedu'n ddaearyddol, mae yna gyfleoedd o hyd mewn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol rhanbarthol a chronfeydd eraill a reolir yn ganolog megis Horizon 2020 i ranbarthau'r UE weithio'n ddwyochrog a thu hwnt i hynny.

5.15 Roedd ymdrechion i sbarduno ymgysylltu trwy weithredoedd cydweithredol drwy raglenni ERDF ac ESF 2007-2013 prif ffrwd yn arafach na'r disgwyl. Roedd cyfranogiad yn gyfyngedig yn anad dim oherwydd y flaenoriaeth a roddwyd ym mhartneriaeth Cymru i ddatblygu prosiectau o dan raglenni Cydgyfeiriant Rhanbarthol a Chystadleurwydd Rhanbarthol, ac ansicrwydd o fewn y bartneriaeth yng Nghymru ynghylch sut i ymgysylltu gan fod yr opsiwn hwn o fewn y rhaglenni rhanbarthol yn newydd a heb ei brofi. Mae Astudiaeth Gwmpasu ETC yn ymdrin â hyn yn fanylach.

5.16 Gan edrych ymlaen, mae Pennod Cymru cytundeb Partneriaeth y DU, yn ogystal â'r rhaglenni rhanbarthol ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd a'r Dwyrain, yn nodi'r potensial a'r themâu penodol a allai ysgogi gweithgareddau cydweithredu o fewn Rhaglenni Rhanbarthol ESF ac ERDF i weithio gyda rhanbarthau eraill yr UE ac yn llwyfan ar gyfer profi cydweithredu ar bynciau o fudd cyffredin, lle gellir sicrhau'r budd mwyaf. Bydd y timau Rheoli Rhaglenni perthnasol yn WEFO yn gweithio'n uniongyrchol gyda phartneriaid posibl sydd â diddordeb mewn gweithgarwch cydweithredu er mwyn trafod cyfleoedd o fewn y rhaglenni hyn.

5.17 Mae partneriaethau'n datblygu, er enghraifft, gyda Llydaw i archwilio'r potensial ar gyfer cydweithredu o gwmpas ynni morol yn y dyfodol ac mae mwy o le ar gyfer datblygu syniadau gyda'r dinasoedd a'r rhanbarthau hynny lle mae trefniadau gweithio'n bodoli eisoes, gan gynnwys drwy Femoranda o Ddealltwriaeth a Gefeillio.

# Cynllun Gweithredu i Ymgysylltu a Llwyddo cymaint ag y bo modd

6.1 Rydym wedi datblygu cyfres o gamau gweithredu i ymateb i wersi a ddysgwyd, sylwadau Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, canfyddiadau Astudiaeth Gwmpasu ETC, a thrafodaethau Ffrwd Waith ETC. Mae'r camau gweithredu hyn yn sail i bob un o'r pum amcan strategol sydd i'w gweld yn Adran 2. Rhain yw sail y Cynllun Gweithredu ar gyfer ymgysylltu a llwyddo cymaint ag y bo modd yng nghyfnod Rhaglen 2014-2020.

**Cynyddu integreiddio a gwybodaeth am ETC a'i botensial i ychwanegu gwerth at weithredu polisïau a rhaglenni o fewn Llywodraeth Cymru ac ymhlith eraill, a thrwy hynny annog ymgysylltiad rhyngwladol.**

6.2 Mae angen i ETC gael ei gynllunio fel rhan o weledigaeth strategol gyffredinol a chyd-fynd â'r weledigaeth honno ar gyfer datblygu Cymru i sicrhau bod manteision cydweithredu a chydweithio rhyngwladol yn cael eu cydnabod a'u croesawu wrth ddatblygu cynlluniau a pholisïau busnes.

- Byddwn yn cynyddu integreiddiad a gwybodaeth am botensial ETC ymysg llunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a'r bartneriaeth ehangach.
- Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer integreiddio gweithgareddau ETC gyda ffynonellau ariannu eraill a gweithrediadau ehangach yng Nghymru, er enghraifft, rhaglenni rhanbarthol prif ffrwd a rhaglenni eraill yr UE, yn cael eu defnyddio'n llawn.
- Byddwn yn tynnu sylw at botensial rhaglenni ETC i ychwanegu gwerth at strategaethau sy'n datblygu ac yn dod i amlygrwydd yng Nghymru, er enghraifft bwydo i mewn i waith Polisi Strategol Morol Cymru a thimau datblygu Byrddau Llywodraethu a Dinas-ranbarthau.

6.3 Mae cryn botensial i wella cysylltiadau trawsffiniol a chryfhau cydweithredu â rhanbarthau Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU.

- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ystyried anghenion a heriau cyffredin a datblygu partneriaethau a'r potensial ar gyfer prosiectau ar draws y DU drwy gyfrwng rhaglenni ETC ac yn ystyried cyfleoedd ehangach trwy ein rhaglenni rhanbarthol perthnasol.

6.4 Mae adrannau Llywodraeth Cymru wedi bod yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru, ar y cyd â phartneriaid yn Llywodraeth Iwerddon.

- Byddwn yn parhau i wella ac adeiladu ar yr ymgysylltu rhwng y ddwy Lywodraeth drwy waith y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r cyfleoedd a ddarperir gan y rhaglen i ffurfio partneriaethau, ysgogi syniadau ac adnabod blaenoriaethau polisi a rennir.

6.5 Mae angen i wybodaeth am ddatblygiadau a chyfleoedd  ETC, yn ogystal â llif a lledaeniad gwybodaeth i bartneriaid, gael ei gwella a'i rhaeadru'n ehangach yng Nghymru.

- Byddwn yn datblygu cysylltiadau mwy effeithiol gydag adrannau polisi Llywodraeth Cymru sydd â buddiannau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau rhaglenni ETC 2014-2020 ac yn gwella'r system ar gyfer sicrhau cyngor polisi ar weithrediadau ETC sy'n dod i'r amlwg ac ar gyfer darparu adborth ar gynnydd sy'n ymwneud â datblygu a chyflwyno.

- Byddwn yn datblygu rhwydwaith o gysylltiadau ETC yng Nghymru ac yn defnyddio ETC ar-lein a chyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a diweddariadau â phartneriaid yng Nghymru sydd â diddordeb yn y rhaglenni hyn neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch cydweithredol trwy'r rhaglenni hyn.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â gwaith Llysgenhadon Cyllid yr UE i rannu gwybodaeth ac archwilio cysylltiadau a mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer aliniad rhwng ETC a rhaglenni'r UE a reolir yn uniongyrchol, gan gynnwys Horizon 2020.

- Byddwn yn ceisio datblygu cydberthynas a chysylltiadau mwy strategol rhwng rhaglenni ETC a rhaglenni prif ffrwd. Er enghraifft, gall rhaglenni rhyngranbarthol ddarparu fframwaith ar gyfer dysgu gwersi a phrif ffrydio.



Smart Coasts

6.6 Trwy gwblhau’r camau hyn, bydd WEFO yn ceisio mynd i'r afael â phrif argymhelliad cyntaf yr Astudiaeth Gwmpasu i wneud y gorau o bob cyfle i ymgysylltu'n strategol a chysylltu gweithrediadau ETC posibl yn fwy agos â datblygiad polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd WEFO yn sicrhau rhyngwyneb mwy effeithiol hefyd ar gyfer hyrwyddo rhyngwladoli a lledaenu gwybodaeth ETC yn fwy effeithiol. Bydd y camau hyn hefyd yn ymateb i sylwadau Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd mewn perthynas â chyfleoedd ETC strategol o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer manteisio ar arferion gorau ETC ac i roi sylw i bolisi'r UE/ETC a pholisi yng Nghymru.

**Cynyddu amlygrwydd a chodi ymwybyddiaeth o raglenni ETC ac annog partneriaid i wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael**

6.7 Mae'n bwysig codi proffil ymgysylltiad Cymru ag ETC ac amlygu ein huchelgais i gynyddu ein cyfranogiad yn y rhaglenni. Mae gan randdeiliaid allweddol yng Nghymru ran i'w chwarae wrth gyflawni'r amcan hwn. Bydd y fframwaith a chynnwys camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu llywio gan gynnydd y rhaglenni perthnasol a'r anghenion a'r bylchau yn y ddarpariaeth.

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo rhaglenni ETC drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, megis y digwyddiad ar y cyd gyda CLILC ac Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel ym mis Hydref 2015.

- Byddwn yn cynnal digwyddiad trawswladol/rhyngranbarthol yng Nghymru i arddangos cyfleoedd dan y rhaglenni hyn.

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig a Phwyntiau Cyswllt y DU i gefnogi seminarau a/neu weithdai trawswladol a rhyngranbarthol rhaglen-benodol i godi ymwybyddiaeth wrth i raglenni 2014-2020 fynd rhagddynt.

6.8 Mae angen gwella amlygrwydd ETC, datblygu cysylltiadau partneriaeth mwy strategol, a chyfathrebu a lledaenu straeon am lwyddiant yn fwy effeithiol yng Nghymru.

- Byddwn yn cryfhau amlygrwydd ac ymwybyddiaeth o raglenni trawswladol a rhyngranbarthol gyda rhanddeiliaid ar draws y sectorau AU/AB, llywodraeth leol, y trydydd a'r sector preifat. Rydym yn awyddus i feithrin ymgysylltiad y sector preifat yn y rhaglen ETC, yn enwedig trwy flaenoriaethau Arloesedd y rhaglen.

- Byddwn yn hwyluso cysylltiadau mwy effeithiol rhwng Pwyntiau Cyswllt y DU a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ac yn cyfuno adnoddau ar draws y sectorau i drafod blaenoriaethau strategol ac ysgogi datblygiad syniadau am brosiectau.

- Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i hwyluso dysgu gan gymheiriaid ac yn rhoi digonedd o gyfle i fuddiolwyr arddangos llwyddiant a phrofiad o weithio o fewn rhaglenni ETC, gan gynnwys goresgyn rhwystrau rhag ymgysylltu.

- Byddwn yn cynyddu'r defnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol a'r we, yn enwedig Twitter, i gyfathrebu datblygiadau gyda rhaglenni ETC 2014-2020.

6.9 Bydd WEFO yn cyflwyno ac yn datblygu gwefan rhaglen-benodol arbennig ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020, sy'n cael ei datblygu'n unol â Strategaeth Gyfathrebu Iwerddon Cymru.

- Byddwn yn sefydlu'r wefan hon ac yn meithrin cysylltiadau gyda'r gwefannau hynny a weithredir gan Awdurdodau Rheoli sy'n gyfrifol am y Rhaglenni ETC eraill y bydd Cymru yn ymgysylltu â nhw.

- Byddwn yn bwrw iddi i fonitro cynnydd Strategaeth Gyfathrebu Iwerddon Cymru sy'n ceisio cyfathrebu cyfleoedd a chyflawniadau cyllido trawsffiniol yng Nghymru ac Iwerddon, cynyddu dealltwriaeth o effaith y rhaglen ar dwf a swyddi, a datblygu diwylliant cadarnhaol ymysg buddiolwyr i hyrwyddo manteision cydweithredu trawsffiniol.

6.10 Bydd y camau hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion ehangach Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru i feithrin partneriaethau rhwng rhanddeiliaid ar draws y sectorau addysg uwch a phellach, busnesau a'r trydydd sector er mwyn rhannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da, yn ogystal â'u sylwadau penodol ynghylch ETC sef y gellid gwneud mwy i harneisio arbenigedd a rhannu gwersi a ddysgwyd. Trwy gwblhau'r camau hyn, byddwn yn mynd i'r afael ag ail thema argymhellion Astudiaeth Gwmpasu ETC yn ymwneud â gwella broceriaeth cyfleoedd ac arddangos llwyddiant a sylwadau Ffrwd Waith ETC am gynyddu amlygrwydd.

**Dylanwadu ar bolisïau a datblygiad rhaglenni ETC drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig y DU ac Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau eraill yr UE mewn rhaglenni trawswladol a rhyngranbarthol i godi proffil Cymru**

6.11 Partneriaeth effeithiol yw conglfaen rhaglenni ETC llwyddiannus ac mae'n bwysig yng nghyd-destun perthynas waith ag adrannau eraill yn y DU a thramor hefyd.

- Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol ar Fwrdd ETC y DU, a sefydlwyd i ddarparu dull mwy cydlynol o ymdrin â pholisïau a rhaglenni ETC yn y DU ac i ddatblygu strwythur gwell ar gyfer y rhwydwaith o Bwyntiau Cyswllt y DU yn 2014-2020 .

- Ein nod fydd sicrhau swyddogaeth Gohebydd Cenedlaethol y DU ar gyfer Rhaglen Ardal yr Iwerydd er mwyn chwarae rhan flaenllaw ar gyfer y DU yn ei pherthynas a thîm rheoli'r rhaglen ym Mhortiwgal, er

mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i bartneriaid yng Nghymru, a helpu i godi proffil Cymru.

- Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth gref gan Lywodraeth Cymru ar Bwyllgorau Monitro Rhaglenni. Rydym yn cwblhau trefniadau i barhau ein haelodaeth o bwyllgorau Gogledd-orllewin Ewrop, Ardal yr Iwerydd ac INTERREG Ewrop.

- Byddwn yn parhau i ymgynghori â sectorau allweddol yng Nghymru er mwyn sicrhau cyfranogiad ar Is-bwyllgorau'r DU sy'n cwmpasu'r tair elfen ETC ac a grëwyd i oruchwylio cyfranogiad y DU ar draws y rhaglenni. Byddwn yn ymgynghori hefyd ar aelodaeth fforwm ymgysylltu ETC y DU a fydd yn canolbwyntio ar faterion lefel uwch megis gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu.
- Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel i helpu i greu cysylltiadau, i roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd ETC ac ehangu rhwydweithiau ar draws yr UE. Er enghraifft, mae potensial i adeiladu ar gysylltiadau â Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) a Chynhadledd Dinasoedd Bwa'r Iwerydd (CAAC) i archwilio themâu o ddiddordeb cyffredin a datblygiadau ymhellach drwy'r Rhaglenni ETC, yn enwedig Rhaglen Ardal yr Iwerydd.

- Byddwn yn sicrhau y byddwn, ynghyd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a phartneriaid yng Nghymru, yn manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o Strategaeth Forol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Ardal yr Iwerydd a'r Cynllun Gweithredu dilynol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag ardaloedd eraill yn y DU, Iwerddon, Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal trwy gydweithrediad o fewn Rhaglen Ardal yr Iwerydd 2014-2020.

- Byddwn yn olrhain cynnydd Menter Vanguard - grŵp o 21 o ranbarthau[9] sy'n cynnwys gweithgynhyrchu uwch yn eu strategaethau arbenigo clyfar ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu prosiectau'n gydweithredol – gan rannu unrhyw ganlyniadau a gwybodaeth i'r bartneriaeth ehangach.

- Fel Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru, byddwn yn parhau i weithio'n agos ac ar y cyd gyda'i phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol yn Iwerddon ac yn adeiladu ar ei chysylltiadau o fewn y DU gyda'n partneriaid mewn rhaglenni ar draws yr UE.

6.12 Rydym eisoes wedi mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Astudiaeth Gwmpasu a Phwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch manteisio ar gyfleoedd i lunio a dylanwadu ar Raglenni ETC 2014-2020. Mae WEFO wedi chwarae rhan hanfodol yn y datblygiadau sydd wedi arwain at raglenni sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol i bartneriaid yng Nghymru. Mae'r blaenoriaethau thematig a'r angen i ganolbwyntio ar weithgarwch gyda'r

[9] Gwlad y Basg, Fflandrys, Baden Wurttemberg, Catalonia, Nord Pas de Calais, Silesia, Yr Alban, Skane, Rhanbarth Tampere a nifer o ranbarthau Daneg

posibiliadau mwyaf a nodwyd gan Ffrwd Waith ETC wedi cael eu hystyried yn llawn hefyd wrth drafod cynnwys rhaglenni.

6.13 Mae cyfranogiad rhanddeiliaid ar strwythurau Is-bwyllgorau'r DU yn ymateb i argymhelliad ehangach y Pwyllgor Menter a Busnes, sy'n cynnwys gweithio gyda llywodraeth leol i ddwyn pobl ynghyd sydd â'r arbenigedd perthnasol, a chryfhau a hybu cyfranogiad awdurdodau lleol yn uniongyrchol yn natblygiad a'r gwaith o gychwyn o ffrydiau polisi ac ariannu Ewropeaidd.

**Cryfhau cymorth i sefydliadau yng Nghymru i'w helpu i gael mynediad i raglenni ETC, gan gynnwys helpu i chwilio am bartneriaid**

6.14 Bydd gweithrediad Uned ETC bwrpasol yn WEFO yn parhau i gynnig cyngor ac arweiniad ar bob un o'r tair elfen o raglenni ETC ar gyfer Adrannau Polisi'r Llywodraeth a phartneriaid yng Nghymru ochr yn ochr â'i swyddogaethau polisi a'r rhai sy'n ymwneud â rhaglenni penodol.

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn cael ein cysylltu â'r model ar gyfer Pwynt Cyswllt y DU sy'n cael ei ddatblygu ar lefel y DU i ryngwynebu â Phwyntiau Cyswllt y DU sy'n ymdrin â rhaglenni ETC eraill. Bydd hyn yn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu'n effeithiol, gan gryfhau'r sylfaen wybodaeth ar draws y rhaglenni ETC yng Nghymru ac yn cynyddu'r potensial ar gyfer datblygu prosiectau ledled y DU.

- Rydym wedi sicrhau cyfraddau ymyrraeth ERDF ffafriol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ETC. Mae yna gyfleoedd hefyd i weithrediadau gael mynediad i'r cynllun Arian Cyfatebol a Dargedir lle mae ETC wedi'i gydnabod fel blaenoriaeth.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhaglen INTERACT ar y Rhwydwaith Morol o raglenni trawsffiniol a'i gronfa ddata KEEP[10] sy'n darparu cyfoeth o wybodaeth am bartneriaethau a phrosiectau ETC, ac ymgysylltu thematig ar draws yr UE mewn rhaglenni ETC.

6.15 Mae strwythur a model cyflwyno mwy cadarn, cynaliadwy drwy rôl Pwyntiau Cyswllt y DU yn cael eu datblygu i roi cymorth effeithiol i randdeiliaid ledled y DU. Bydd yr union strwythur yn cael ei lywio gan ddatblygiad pellach model llywodraethu'r DU ar gyfer 2014-2020, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau 2016.

- Rydym yn pwyso am gael Pwynt Cyswllt y DU yng Nghymru i ddarparu cyngor uniongyrchol i randdeiliaid, gan gynnwys cymorth chwilio am bartner ar gyfer rhaglenni trawswladol a rhyngranbarthol. Gallai hyn gynnwys cylch gwaith i gynnwys de-orllewin Lloegr hefyd.

6.16 Drwy gwblhau'r camau hyn, byddwn yn ymateb i drydydd prif argymhelliad Astudiaeth Gwmpasu ETC sef dileu'r risg o gyfranogi yn ETC

[10] http://www.keep.eu/keep/

drwy geisio cryfhau cyswllt a chefnogaeth drawswladol i bartneriaid. Byddai strwythur gwell yng Nghymru ac yn y DU yn ysgogiad hefyd ar gyfer cynorthwyo i ddatblygu capasiti fel yr argymhellir yn yr ail brif argymhelliad. Mae'r camau hyn yn ymateb hefyd i sylwadau gan Bwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Ffrwd Waith ETC am bresenoldeb cyswllt gweladwy i Gymru er mwyn cynorthwyo gyda’r gwaith o chwilio am bartner a darparu cyngor uniongyrchol i randdeiliaid yng Nghymru. Byddai bod yn gartref i Bwynt Cyswllt yn mynd i'r afael hefyd â galwad Ffrwd Waith ETC am well cysylltiadau rhwng rhaglenni, rhywbeth yr ydym ni, ynghyd â chydweithwyr yn y DU yn awyddus i’w wella.

**Arwain y gwaith o weithredu Rhaglen Gydweithredu drawsffiniol Iwerddon Cymru 2014-2020 gan weithio'n agos gyda'n partneriaid yn Iwerddon i sicrhau y darperir y rhaglen yn effeithiol, y manteisir i’r eithaf ar y cronfeydd ac y cyflawnir y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen**

6.17 Mae cryn ddiddordeb gan bartneriaid yn rhaglen Iwerddon Cymru ac fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer 2014-2020, rydym yn benderfynol o weithredu rhaglen drawsffiniol o ansawdd uchel a fydd yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth effeithiol i ymgeiswyr gydol y cylch datblygu a darparu.

- Byddwn yn adeiladu ar bartneriaeth effeithiol gyda'n cydweithwyr yn Iwerddon sydd yn ganolog i'n nod o sicrhau y cyflwynir rhaglen o safon gan fanteisio ar y llwyddiant hyd yn hyn.

- Bydd pedwar Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru (Swyddogion Datblygu) yn parhau i roi sylw pwrpasol i bartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon. Byddant yn darparu cymorth uniongyrchol i ymgeiswyr, hybu cyfleoedd o fewn y Rhaglen, chwilio am bartneriaid posibl a chymorth ymarferol drwy'r camau datblygu, cymeradwyo, ôl-gymeradwyo a chau.

- Rydym yn cyflawni yn erbyn gofynion e-gydlyniant yn Rheoliadau’r UE drwy symud Rhaglen Iwerddon Cymru i’r un fframwaith TGCh â’n rhaglenni rhanbarthol drwy ddefnyddio PPIMS a thrwy ddarparu system ar-lein ar gyfer ceisiadau.

- Byddwn yn trefnu o leiaf un digwyddiad mawr sy'n canolbwyntio ar wybodaeth ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod rhaglennu i dynnu sylw at negeseuon allweddol, cyfleoedd ariannu, trefniadau cyflawni, arferion gorau, a chyflawniadau Rhaglen Cymru Iwerddon. Gallai hyn fod ar ffurf digwyddiad i randdeiliaid a gynhelir mewn lleoliad penodol yng Nghymru neu Iwerddon neu ymgyrch gyhoeddusrwydd/Twitter.

# Atodiad A

## Prosiectau a'r arian a gafwyd fesul rhaglen – y sefyllfa ar 31 Awst 2015

| | Cyfanswm Gwerth y Rhaglen / € | Cyfanswm Gwerth Rhaglen ERDF / € | Nifer y Prosiectau a Gymeradwywyd gyda phartneriaid o Gymru | Cyfanswm costau'r prosiectau / € | Cyfanswm Grant ERDF / € | Cyfanswm y Costau yng Nghymru / € | Cyfanswm ERDF yng Nghymru / € |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iwerddon Cymru** | 70,260,394 | 52,695,295 | 41 | 70,483,113 | 50,630,291 | 38,338,152 | 27,243,904 |
| **Ardal yr Iwerydd** | 158,798,190 | 104,051,233 | 21 | 43,080,815 | 28,002,477 | 7,969,828 | 5,107,567 |
| **Gogledd-orllewin Ewrop** | 696,668,854 | 355,443,293 | 17 | 113,702,735 | 56,529,395 | 17,424,259 | 8,712,129 |
| **IVC** | 405,094,936 | 321,321,762 | 13 | 23,357,799 | 18,364,756 | 2,774,582 | 2,080,936 |
| **URBACT** | 68,890,739 | 53,319,170 | 2 | 651,410 | 482,797 | 12,500 | 10,000 |
| | 1,399,713,113 | 886,830,753 | **94** | 251,275,872 | 154,009,717 | 66,519,321 | **43,154,536** |

# Atodiad B

## Enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus ETC 2007-2013

<table>
<tr><th colspan="2">Rhaglen Iwerddon Cymru</th></tr>
<tr><td>Y Gynghrair Geltaidd ar gyfer Nanolechyd (CAN)</td><td>€1.2m (€0.9m ERDF)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Partneriaid: Prifysgol Abertawe (yn arwain), Prifysgol Dinas Dulyn, Coleg y Drindod, Dulyn a Choleg Prifysgol Dulyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dechreuodd y rhyngweithio yma rhwng busnes ac academia drwy fforymau menter Y Gynghrair Geltaidd ar gyfer Nanolechyd (CAN), digwyddiad blynyddol a gynhelir bob yn ail yng Nghymru ac Iwerddon, gan ddod â busnesau, partneriaid CAN, rheolwyr cronfeydd a phartïon eraill sydd â buddiant i archwilio'r cyfleoedd diweddaraf sy'n agored i fusnesau yn y maes, gyda nod penodol o dargedu twf busnesau bach a chanolig. Bu rhyngweithio dilynol rhwng rhanddeiliaid fforwm ar sail pob achos yn ei dro ar ôl pob digwyddiad. Gwnaeth CAN hefyd gyflwyno gweithgaredd technegol yn canolbwyntio ar Wybodeg a Modelu data a gafwyd o ddadansoddi rhyngweithiadau nanoddeunyddiau gyda systemau biolegol gan ddefnyddio systemau sgrinio uchel-gynnwys. Mae hwn yn ofyniad sy'n amlygu ei hun ar gyfer datblygu a gwerthuso cynhyrchion addas ar gyfer nanodechnoleg mewn gwyddorau bywyd a sectorau gweithgynhyrchu uwch. Hyd yma mae'r prosiect wedi cynorthwyo 30 o fusnesau bach a chanolig a chreu 2 fusnes newydd a 10 (gros) o swyddi newydd uniongyrchol.</td></tr>
<tr><td>Hydro-BPT</td><td>€0.9m (€0.6m ERDF)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Partneriaid: Prifysgol Dulyn (yn arwain) a Phrifysgol Bangor</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Hydro-BPT wedi bod yn cynnal ymchwil i faint o ynni sydd ei angen i ddarparu cyflenwad dŵr a gwasanaeth triniaeth modern ers 2011 gyda golwg ar wella cynaliadwyedd y diwydiant dŵr yng Nghymru ac Iwerddon.<br>Mae prosiect Hydro-BPT yn darparu:<ul><li>atebion peirianneg technegol;</li><li>asesiadau o effeithiau'r dechnoleg arfaethedig ar yr amgylchedd ac ynni yn y rhanbarth;</li><li>cronfa ddata GIS o'r seilwaith dŵr presennol lle mae posibilrwydd y gellir adennill ynni; a</li><li>model busnes/cydweithredu lle gall y diwydiant weithredu'r dechnoleg yn eang.</li></ul>Hyd yma mae'r prosiect wedi gweithredu 7 o fesurau sy'n ymateb i her newid yn yr hinsawdd, wedi sefydlu cysylltiadau trawsffiniol ac mae wedi dosbarthu 9 o ganlyniadau/adroddiadau i randdeiliaid a/neu gymunedau.<br>Wrth edrych ymlaen at 2014-2020, mae Hydro-BPT yn y cam cynllunio busnes o weithgarwch newydd yn Rhaglen Iwerddon Cymru a hefyd yn edrych ar ddatblygu prosiect dan y rhaglen Horizon 2020. Yn ystod cyflwyniad mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Monitro Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020, tanlinellwyd pwysigrwydd y cydweithredu, gwybodaeth a chysylltiadau sydd wedi cael eu meithrin rhwng cydweithwyr o'r ddwy wlad i'r prosiect.</td></tr>
</table>


| Smart Coasts | €5m (€3.7m ERDF) |
|---|---|
| Partneriaid: Prifysgol Aberystwyth (yn arwain) a Choleg Prifysgol Dulyn | |
| Nod Smart Coasts yw darparu cymunedau arfordirol cynaliadwy drwy gynnal cydymffurfiaeth dyfroedd ymdrochi â safonau'r UE, a thrwy hynny gadw safleoedd allweddol ar agor a denu ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i economïau gwledig Cymru ac Iwerddon.<br>Mae deddfwriaeth newydd, a awgrymwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ac a weithredir gan yr UE, yn awgrymu y dylai modelu a rhagweld ansawdd dŵr ymdrochi amser real gael ei ddefnyddio gydag arwyddion deallus i roi 'dewis gwybodus' i ymdrochwyr. Gyda rhagfynegiad amser real bydd y DU yn cadw ei gwobrau traethau 'Baner Las'. Hebddo, bydd hanner y Baneri Glas presennol yn cael eu colli. Mae Smart Coasts wedi cyflwyno'r model cyntaf o'r fath yng Nghymru a Lloegr sydd ar waith ers 2013.<br>Mae gan hwn y pŵer rhagfynegi gorau o blith yr holl fodelau a ddefnyddir i'r her reoli hon ar draws y byd. Ym Mae Abertawe, mae'n gwneud y gwahaniaeth rhwng y tebygolrwydd go iawn o gau traeth a dyfodol cynaliadwy i economi hamdden y ddinas.<br>Mae Smart Coasts wedi datblygu model rhagfynegol ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi yn Iwerddon, sydd eisoes wedi cael ei roi ar waith yn dros hanner awdurdodau lleol y wlad, sy'n golygu bod modd iddynt ddiystyru samplau dŵr a fyddai'n cael effaith negyddol ar sut y categoreiddir dŵr ymdrochi.<br>Yn ogystal â llwyddiant y modelu canolog, mae'r prosiect wedi datblygu dulliau newydd o olrhain ffynhonnell llygredd traeth a mesur yr holl fewnbynnau cymhleth ar gyfer carthffosiaeth ac amaethyddiaeth. Rydym bellach yn cymryd rhan mewn cymhariaeth fanwl o ddulliau modelu eraill er mwyn sicrhau'r pŵer rhagfynegol gorau a sicrhau y bydd arf rheoli cadarn yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid y gymuned bolisi rydym yn gweithio gyda nhw.<br>Hyd yma mae wedi gweithredu 19 o fesurau sy'n ymateb i her newid yn yr hinsawdd, wedi sefydlu 6 o gysylltiadau trawsffiniol ac mae wedi dosbarthu canlyniadau/adroddiadau i 12 o randdeiliaid a/neu gymunedau. | |
| **WIN-IPT** | **€1.7m (€1.2m ERDF)** |
| Partneriaid: Waterford Institute of Technology (yn arwain), Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe | |
| Mae WIN-IPT yn hyrwyddo datblygiad dulliau arloesedd a gwell cyfleoedd busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n gweithio ym maes technolegau ffotofoltaidd. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith yn ceisio nodi'r rhwystrau rhag datblygu'r Diwydiant Solar ymhellach. Mae wedi creu hwb o arbenigedd drwy drosglwyddo gwybodaeth (h.y., fforymau a gweithdai Busnes ac Arloesi) rhwng sefydliadau addysg uwch, busnesau bach a chanolig ac Awdurdodau Lleol. Mae'r hwb yn gweithredu fel storfa drawsffiniol o wybodaeth a gweithgaredd ymchwil a datblygu sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau bach a chanolig sy'n gweithio i ddatblygu atebion ynni-effeithlon.<br>Mae'r rhwydwaith wedi darparu cymorth uniongyrchol gydag ymchwil a datblygu a gwasanaethau ymgynghori i fusnesau bach a chanolig sy'n gweithredu yn y sectorau cynhyrchu ynni solar ac amgylchedd adeiledig. Mae allbynnau allweddol yn cynnwys: Arddangosiad parod i'r farchnad o Rwydwaith Synwyryddion Diwifr sy'n defnyddio ynni'r haul ar gyfer swyddogaethau rheoli adeiladau, arddangosiad parod i'r farchnad o dechnolegau arddangos sy'n defnyddio ynni'r haul, goleuadau stryd sy'n | |

| | |
|---|---|
| defnyddio ynni'r haul, proses argraffu cost isel gan ddefnyddio Dyfais Ffotofoltaidd, a'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau cell solar (Ffotofoltaidd Organig (OPV))<br>Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi cynorthwyo 36 o fusnesau bach a chanolig, wedi datblygu 4 o gynhyrchion/prosesau a chreu 8 (gros) swydd newydd uniongyrchol. | |
| **Rhaglen Ardal yr Iwerydd** | |
| **ARCOPOL** | **€3m (€2m ERDF)** |
| Partneriaid: dan arweiniad CETMAR (Sbaen) gan gynnwys Cyngor Sir Penfro. Mae aelod-wladwriaethau eraill yn cynnwys Ffrainc, Iwerddon a Phortiwgal. | |
| Amcanion y prosiect yw:<br>1) Ymgorffori allbynnau EROCIPS (prosiect blaenorol) i mewn i lefelau ymateb strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac annog datblygiad technegau trawswladol trosglwyddadwy sy'n cryfhau'r ymateb brys statudol ac anstatudol;<br>2) Gwella'r galluoedd i ymateb mewn achosion o ollwng sylweddau peryglus, gwenwynig ac anadweithiol a'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu ar frys. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gasglu ac asesu gwybodaeth, arferion a phrofiadau cyfredol a thrwy ddatblygu offer, modelau, systemau a gweithdrefnau;<br>3) Gwella lefel ymwybyddiaeth a hyfforddiant yr ymatebwyr posibl a chynyddu graddfa cyfranogiad rhanddeiliaid;<br>4) annog cydweithio trawsffiniol pellach rhwng gwledydd cyfagos i wella strategaethau ymateb a gwella galluoedd i gynorthwyo ei gilydd, gan hwyluso hyfforddiant ac ymarferion trawsffiniol ar y cyd ac ymarferion yn y rhanbarthau partner;<br>5) Gwella galluoedd lliniaru drwy asesu mecanweithiau hawlio ac iawndal presennol yn ogystal â gweithdrefnau iawndal ar gyfer difrod ecolegol a thrwy ddatblygu canllawiau, offer a methodolegau safonol. | |
| **MAREN** | **€1.5m (€1m ERDF)** |
| Partneriaid: Prifysgol Caerdydd (yn arwain), gan gynnwys partneriaid o Sbaen, Portiwgal, Ffrainc ac Iwerddon | |
| Bydd gosod dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol mewn dyfroedd aberol ac arfordirol yn ddiau yn cael effaith ar lefelau dŵr ac, yn arbennig, cerrynt llanw, gan gael effaith sylweddol hefyd yn sgil hynny ar agweddau amgylcheddol ac economaidd y safleoedd. Weithiau gall egni 'glân', fel y'i gelwir, hefyd gael effeithiau amgylcheddol negyddol; felly, mae rhywfaint o bwysau i ddatblygu ymagwedd gynhwysfawr ac integredig i ddadansoddi'r holl ffactorau i gynorthwyo'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i ddewis pa fath o ynni i'w ddatblygu, a ble i leoli'r safleoedd cynhyrchu. Bydd cymysgedd a chydbwysedd y gwahanol ffynonellau o ynni yr un mor bwysig yn y dyfodol i ddatblygiad gofodol cynaliadwy Ewrop ag y bydd datblygu a manteisio ar bob un o'r mathau o ynni eu hunain, ac mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gael y cydbwysedd hwnnw'n iawn.<br>Felly, prif amcanion prosiect MAREN yw:<br>(i) Optimeiddio potensial echdynnu ynni; a<br>(ii) Lleihau effaith hydro-amgylcheddol ystod eang o'r dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol mwyaf addawol. | |

| Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop | |
|---|---|
| **ENERGETIC ALGAE** | **€14.4m (€7.2m ERDF )** |
| Partneriaid: Prifysgol Abertawe (yn arwain), gan gynnwys partneriaid o’r DU, Gwlad Belg, Yr Almaen, Iwerddon, Yr Iseldiroedd a Ffrainc | |
| Nod Energetic Algae yw lleihau allyriadau CO2 a dibyniaeth ar ffynonellau ynni anghynaliadwy yng Ngogledd-orllewin Ewrop drwy gyflymu datblygiad technolegau cynaliadwy ar gyfer cynhyrchu biomas algaidd, bio-ynni a lliniaru nwyon tŷ gwydr (NTG) o gam peilot i weithredu i gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau gwerthadwy. Wrth ystyried cnydau bio-ynni sy’n addas ar gyfer Gogledd-orllewin Ewrop, mae yna heriau tiriogaethol yn deillio o’r defnydd dwys o dir yn gyffredinol a phresenoldeb amgylcheddau ffisegol amrywiol. Mae biodechnolegau algaidd yn rhoi cyfle i ymdrin â hyn, gan nad yw algâu yn cystadlu am adnoddau cnydau bwyd; maent yn gallu lliniaru nwyon tŷ gwydr ac yn addasu i amgylcheddau amrywiol. Mae rhwydwaith integredig newydd o gyfleusterau algaidd ar raddfa beilot yn gwasanaethu i ddatblygu a chyfnewid arferion gorau ar gyfer biomas a bioynni algaidd, ac wedi’u teilwra i ‘r amodau gweithredu sy’n gyfredol yng Ngogledd-orllewin Ewrop. Daw mewnbwn oddi wrth lunwyr polisi, rheoleiddwyr, cwmnïau, cyrff anllywodraethol a’r cyhoedd i ddatblygu map ffordd i dechnoleg y sector. Mae offeryn cefnogi penderfyniadau TGCh ar waith fel canllaw ar gyfer ehangu’r sector bioynni algaidd mewn modd cynaliadwy yng Ngogledd-orllewin Ewrop. | |
| **INTERREG IVC** | |
| **SEE – Sharing Experience Europe** | **€1.5m (€1.1m ERDF)** |
| Partneriaid: Prifysgol Metropolitan Caerdydd (yn arwain), mae aelod-wladwriaethau eraill yn cynnwys Gwlad Belg, Ffrainc, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Iwerddon, yr Eidal, Gwlad Pwyl, Slofenia a Sbaen | |
| Mae prosiect SEE yn bartneriaeth o 11 o sefydliadau sy’n dymuno sefydlu’r ffordd orau o leihau’r diffyg manteisio ar arloesedd fel offeryn ar gyfer twf economaidd trwy rannu profiad, datblygu ffyrdd newydd o feddwl a dylanwadu ar bolisi rhanbarthol. Mae’r grŵp wedi rhannu gwybodaeth am bolisïau sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio dylunio i roi hwb i arloesedd, entrepreneuriaeth, cynaliadwyedd neu ddatblygu economaidd. Mae’r holl bartneriaid eisoes yn weithgar yn sefydlu rhaglenni neu strategaethau dylunio ar lefelau rhanbarthol neu genedlaethol sy’n targedu busnesau bach a chanolig a’u diffyg adnoddau ar gyfer gweithredu arfer dylunio ac arloesi yn eu busnes. Datblygodd y grŵp hwn gydweithredu rhyngranbarthol i gyfnewid gwybodaeth a phrofiadau er mwyn nodi, dadansoddi a lledaenu arferion da ar arloesi a pholisi dylunio a meysydd cysylltiedig eraill (e.e. cynaliadwyedd, Ymchwil a Datblygu). | |

Atodiad C

# Crynodeb o weithgaredd thematig prosiectau ETC yng Nghymru yn ystod Rhaglenni 2007-2013




Mae’r siart hwn yn rhoi ciplun o weithgarwch thematig ETC yng Nghymru yn ystod cyfnod y Rhaglen rhwng 2007 a 2013, a ddiffinnir yn unol â’r Amcanion Thematig a’r Blaenoriaethau Buddsoddi hynny a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn Rheoliadau'r UE ar gyfer 2014-2020.

DS -


- Mae’r rhan fwyaf o Raglenni ETC 2014-2020 y bydd Cymru yn ymgysylltu â nhw wedi cyfuno gweithgareddau sy’n perthyn i TO1 (Ymchwil ac Arloesi) a TO3 (Busnesau bach a chanolig) o fewn un Echel Flaenoriaeth sy’n canolbwyntio ar Arloesedd
- Mae TO6 (Amgylchedd ac Effeithlonrwydd Adnoddau) yn adlewyrchu amrywiaeth o weithgarwch yn 2007-2013 - ynni adnewyddadwy (7 prosiect), diwylliant a threftadaeth (7), diogelu’r amgylchedd a bioamrywiaeth (6) a datblygu trefol (2)
- Mae’r lefel gymharol uchel o weithgaredd addysg a hyfforddiant yn adlewyrchu presenoldeb Blaenoriaeth benodol o fewn Rhaglen Iwerddon Cymru

# Atodiad D

## Amlinelliad o Raglenni ETC 2014-2020

### Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020




Mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 o €100m, sy'n werth grant ERDF o €79m, yn rhaglen drawsffiniol sy'n cysylltu arfordir Gorllewin Cymru â De-ddwyrain Iwerddon. Mae'r cynnydd o ran dyraniad Llywodraethau'r DU ac Iwerddon yn golygu bod cyfanswm gwerth y rhaglen yn rhyw €100 miliwn. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar werth rhaglen 2007-2013 (€70 miliwn), sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd mawr a roddir i'r rhaglen hon gan Lywodraethau Cymru ac Iwerddon.

Gweledigaeth y Rhaglen yw darparu'r fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol gydweithredu i fynd i'r afael â heriau a blaenoriaethau sydd o fudd i ddwy ochr Môr Iwerddon - gan gyfrannu ac ychwanegu gwerth at flaenoriaethau datblygu cynaliadwy ac economaidd Iwerddon a Chymru.

Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar **dair** Echel Flaenoriaeth weithredol a thri Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcan Penodol |
|---|---|
| 1. Arloesi trawsffiniol | Cynyddu dwysedd y cydweithredu i drosglwyddo gwybodaeth sy’n cynnwys sefydliadau ymchwil a busnesau bach a chanolig yn unol â blaenoriaethau strategaethau arbenigo clyfar a rennir. |
| 2. Addasu Cymunedau Môr Iwerddon a’r Arfordir i Newid yn yr Hinsawdd | Cynyddu gallu a gwybodaeth ynghylch addasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer cymunedau Môr Iwerddon a’r arfordir. |
| 3. Adnoddau Diwylliannol a Naturiol a Threftadaeth (gan ganolbwyntio ar dwristiaeth) | Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr i gymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen mewn modd cynaliadwy. |

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yw’r Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Cymru Iwerddon ar gyfer 2014-2020 a bydd yn adeiladu ar gynllun a datblygiad tri-ochrol i weithredu’r Rhaglen gyda’n partneriaid gweithredol, Cynulliad y Rhanbarth Deheuol (SRA) yn Waterford a phartneriaid y llywodraeth yn Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio (DPER) yn Nulyn.

Cafodd y Rhaglen ei chymeradwyo’n ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Chwefror, 2015.

Mae Rhaglen 2014-2020 yn cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd gan wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) (http://wefo.gov.wales/programmes/irelandwales?lang=cy) ond mae yna wefan benodol ar gyfer y Rhaglen yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Mae synergedd cryf rhwng dyheadau Iwerddon a rhai Llywodraeth Cymru o ran twf yr economi a swyddi.

Mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru, felly, yn darparu sail werthfawr ar gyfer hyrwyddo cydweithrediad a phartneriaeth ar draws Môr Iwerddon. Lluniwyd y Rhaglen ar sail adnabod yr heriau cyffredin hynny lle gall ymyrraeth ddarparu’r gwerth ychwanegol mwyaf.

Mae’r rhaglen yn canolbwyntio’n glir ar y Môr rhyngom gyda chyfleoedd pellach ar gyfer harneisio doniau’r arbenigedd gwyddonol o fri rhyngwladol sydd gennym i gynyddu gallu a gwybodaeth ynghylch newid yn yr hinsawdd. Bydd cyfleoedd i gydgysylltu ein sefydliadau/colegau Addysg Bellach a’n busnesau bach a chanolig drwy gydweithio gan dargedu’r strategaethau arbenigo clyfar a rannwn a fydd yn ysgogi gweithgarwch arloesi ar y cyd mewn bwyd a diod, gwyddorau bywyd a gwyddorau morol ac amgylcheddol (gan gynnwys ynni adnewyddadwy). Byddwn hefyd yn defnyddio’r diwylliant, adnoddau a threftadaeth a rannwn er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr i’r rhanbarth trawsffiniol.

# Rhaglen Drawswladol Gogledd-Orllewin Ewrop 2014-2020




Mae Rhaglen €648m Gogledd-Orllewin Ewrop 2014-2020 yn rhaglen drawswladol sy'n werth €396m mewn grant ERDF. Mae'r Rhaglen yn cysylltu'r DU (gan gynnwys Cymru gyfan) ag Iwerddon, Gwlad Belg, Lwcsembwrg ac ardaloedd yn Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Swistir.

Amcan y Rhaglen ar gyfer 2014-2020 yw cynhyrchu newid mesuradwy cadarnhaol yng Ngogledd-Orllewin Ewrop ar dair thema: Arloesi, Carbon isel ac Effeithlonrwydd adnoddau a deunyddiau.

Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar **dair** Echel Flaenoriaeth weithredol a phum Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcanion Penodol |
|---|---|
| 1. Arloesedd | Gwella perfformiad arloesedd mentrau ar draws rhanbarthau Gogledd-orllewin Ewrop. |
| 2. Carbon Isel | Hwyluso prosesau i roi strategaethau carbon-isel, ynni a diogelu'r hinsawdd ar waith er mwyn gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Ngogledd-orllewin Ewrop;<br><br>Hwyluso'r defnydd o dechnolegau, cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau carbon isel mewn sectorau â photensial sylweddol i arbed ynni er mwyn gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Ngogledd-orllewin Ewrop;<br><br>Hwyluso rhoi atebion carbon isel trawswladol ar waith mewn systemau trafnidiaeth er mwyn gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Ngogledd-orllewin Ewrop. |
| 3. Effeithlonrwydd Deunyddiau Adnoddau | Gwneud y defnydd gorau /ailddefnyddio deunyddiau ac adnoddau naturiol yng Ngogledd –orllewin Ewrop. |

Mae gan y Rhaglen ei gwefan ei hun: http://www.nweurope.eu/

Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ei leoli yn Rhanbarth Nord-Pas de Calais yn Lille, Ffrainc.

Cafodd y Rhaglen ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 18 Mehefin, 2015.

Mae Rhaglen 2014-2020 yn cynnwys nifer o Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau lle mae perfformiad economaidd yn gymharol gryf o'i gymharu ag ardaloedd eraill yr UE a lle mae dimensiwn trefol yn ffactor. Mae mwy o ffocws bellach i'r rhaglen ac mae'n canolbwyntio ar nifer llai o flaenoriaethau gan fynd i'r afael â newid mesuradwy o ran arloesedd, carbon isel ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae gwir gyfle i bartneriaid yng Nghymru ysgogi twf economaidd drwy ymgysylltu â rhanbarthau ffyniannus a dysgu oddi wrthynt ac i fanteisio ar un o amcanion y rhaglen sef mynd ar drywydd datblygiadau mwy cytûn a chytbwys yn y diriogaeth drwy hybu partneriaethau â phrosiectau o ardaloedd ymylol a llai trefol.

## Rhaglen Drawswladol Ardal yr Iwerydd 2014-2020




Mae Rhaglen €185m Ardal yr Iwerydd 2014-2020 yn rhaglen drawswladol sy'n werth €140m mewn grant ERDF . Dyma raglen sydd â ffocws morol, sy'n cysylltu rhanbarthau'r UE ar arfordir yr Iwerydd gan gynnwys Iwerddon, ardaloedd o Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal ac ardaloedd yn y DU (gan gynnwys Cymru gyfan).

Mae gan y Rhaglen ei gwefan ei hun: http://atlanticarea.ccdr-n.pt/

Bydd y Rhaglen yn canolbwyntio ar **bedair** Echel Flaenoriaeth weithredol a saith Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcanion Penodol |
|---|---|
| 1. Ysgogi arloesedd a’r gallu i gystadlu | Gwella gallu i arloesi drwy gydweithredu i feithrin gallu i gystadlu;<br><br>Cryfhau trosglwyddo canlyniadau arloesi er mwyn hwyluso twf a datblygiad cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau newydd. |
| 2. Meithrin defnydd effeithlon o adnoddau | Meithrin ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni;<br><br>Meithrin twf gwyrdd, eco-arloesi ac effeithlonrwydd amgylcheddol. |
| 3. Cryfhau gwydnwch y diriogaeth o ran risgiau o darddiad naturiol, yr hinsawdd neu o waith dyn. | Cryfhau systemau rheoli risg. |
| 4. Gwella bioamrywiaeth ac asedau naturiol a diwylliannol. | Gwella sut y diogelir bioamrywiaeth a gwella gwasanaethau ecosystemau;<br><br>Gwella asedau naturiol a diwylliannol i ysgogi datblygiad economaidd. |

Yr Awdurdod Rheoli yw Comisiwn Cydlynu a Datblygu Rhanbarth y Gogledd (CCDR) yn Porto, Portiwgal.

Cyflwynwyd y Rhaglen i’r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mai 2015 ac mae’n destun trafodaethau gyda’r Comisiwn sy’n parhau,  a rhagwelir y daw cymeradwyaeth ffurfiol yn ddiweddarach yn 2015. Mae’r Rhaglen felly o bosibl yn amodol ar rai newidiadau, er na ddisgwylir y bydd y rheiny’n sylweddol.

Mae llawer o gyfleoedd i bartneriaid yng Nghymru ymgysylltu gyda phwyslais ar gysylltiadau morol a chydweithredu ar dwf gwyrdd, eco-arloesedd a’r defnydd o asedau naturiol a diwylliannol i sicrhau twf economaidd. Mae gan bartneriaid o Gymru gyfle i adeiladu ar weithgarwch thematig a welwyd yn rhai o’r meysydd hyn yn ystod 2007-2013.

## Rhaglen INTERREG EWROP 2014-2020




Mae Rhaglen €426m INTERREG Ewrop yn rhaglen cyfnewid polisi ryngranbarthol sy'n werth €359m o ran grant ERDF ac yn cynnwys pob un o 28 aelod-wladwriaeth yr UE yn ogystal â'r Swistir a Norwy.

Nod cyffredinol y Rhaglen yw gwella'r modd y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol, yn bennaf rhaglenni o dan y nod o Fuddsoddi ar gyfer Twf a Swyddi a lle bo'n berthnasol, rhaglenni o dan nod ETC, trwy hyrwyddo cyfnewid profiadau a dysgu o bolisïau ymhlith gweithredwyr rhanbarthol.

Trwy gyd-ariannu prosiectau a phedwar platfform thematig mae'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus rhanbarthol a lleol a chwaraewyr rhanbarthol eraill gyfnewid arferion a syniadau ar y ffordd mae polisïau cyhoeddus yn gweithio, a thrwy hynny dod o hyd i atebion i wella eu strategaethau er budd dinasyddion a chymunedau.

Bydd y Rhaglen yn canolbwyntio ar **bedair** Echel Flaenoriaeth weithredol a chwe Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcan Penodol |
|---|---|
| 1. Cryfhau ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd. | Gwella'r modd y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol ym maes seilwaith a galluoedd ymchwil ac arloesedd;<br><br>Gwella sut y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol sy'n cefnogi cyflwyno'r arloesi gan weithredwyr mewn cadwyni arloesi rhanbarthol mewn meysydd o "arbenigo clyfar" a chyfle i arloesi. |
| 2. Gallu busnesau bach a chanolig i gystadlu | Gwella'r modd y gweithredir polisïau datblygu rhanbarthol a rhaglenni sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig ar bob cam o'u cylch bywyd wrth iddynt ddatblygu, sicrhau twf a chymryd rhan mewn arloesi. |
| 3. Economi carbon isel | Gwella'r modd y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â'r newid i economi carbon isel. |
| 4. Yr amgylchedd ac effeithlonrwydd adnoddau | Gwella'r modd y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol ym maes diogelu a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol;<br><br>Gwella'r modd y gweithredir polisïau a rhaglenni datblygu rhanbarthol sy'n cynyddu effeithlonrwydd adnoddau, twf gwyrdd ac eco-arloesi a rheoli perfformiad amgylcheddol. |

Mae Awdurdod Rheoli'r Rhaglen wedi ei leoli yn Rhanbarth Nord-Pas de Calais yn Lille, Ffrainc.

Cafodd y Rhaglen ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2015.

## URBACT III 2014-2020

Mae rhaglen ryngranbarthol €96m URBACT III, sy'n werth €74m mewn grant ERDF, yn cynnwys 28 aelod-wladwriaeth yr UE a bydd yn hyrwyddo datblygu trefol cynaliadwy ac yn galluogi dinasoedd Ewrop i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion i heriau trefol.

Nod URBACT yw galluogi dinasoedd i weithio gyda'i gilydd a datblygu atebion integredig i heriau trefol cyffredin, trwy rwydweithio, dysgu o brofiadau ei gilydd, gan ddysgu gwersi a nodi arferion da er mwyn gwella polisïau trefol.

Bydd y Rhaglen yn canolbwyntio ar y gallu i gyflwyno polisïau, llunio polisi, gweithredu polisi ac adeiladu a rhannu gwybodaeth.

Mae gan URBACT un Echel Flaenoriaeth a phedwar Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcanion Penodol |
|---|---|
| Hyrwyddo Datblygu Trefol Integredig Cynaliadwy | Gwella gallu dinasoedd i reoli polisïau ac arferion trefol cynaliadwy mewn modd integredig a chyfranogol;<br><br>Gwella dyluniad strategaethau trefol cynaliadwy a chynlluniau gweithredu mewn dinasoedd;<br><br>Gwella'r modd y gweithredir cynlluniau integredig ar gyfer datblygu trefol cynaliadwy;<br><br>Sicrhau bod gan ymarferwyr a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel gwell mynediad at wybodaeth thematig URBACT a'u bod yn rhannu medrau ar bob agwedd ar ddatblygu trefol cynaliadwy er mwyn gwella polisïau trefol. |

Er mwyn cyrraedd yr amcanion hyn, bydd URBACT III yn datblygu tri math o ymyriadau:

- cyfnewid trawswladol,
- meithrin gallu,
- elwa ohonynt a lledaenu.

Yr Awdurdod Rheoli yw'r Commissariat Général à l'Egalité des Territoires (CGET) yn Ffrainc.

Cymeradwywyd Rhaglen 2014-2020 yn ffurfiol ar 12 Rhagfyr, 2014.

Nid yw'r Rhaglen URBACT wedi gweld llawer o ymgysylltu gweithredol o Gymru. Mae Uned ETC WEFO wedi blaenoriaethu ymgysylltu'n uniongyrchol â rhaglenni trawswladol mwy ac INTERREG Ewrop, ochr yn ochr â'i phrif amcan yn ei rôl fel Awdurdod Rheoli Rhaglen Iwerddon Cymru, er mwyn sicrhau ei bod yn cyflwyno a chael cymeradwyaeth i Raglen Iwerddon Cymru yn brydlon ac i ysgogi trefniadau gweithredu.

Wedi dweud hynny, mae WEFO yn effro i gyfleoedd URBACT ac yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y DU i roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau gyda'r rhaglen, bydd yn mynd ati i gynyddu ymdrechion i roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd a chynyddu ymgysylltiad.

## ESPON

Bydd y rhaglen ryngranbarthol ESPON 2020 €52m, sy'n werth grant €41m o ERDF, yn parhau i gyfnerthu Rhwydwaith Arsylwi Tiriogaethol Ewropeaidd a chynyddu darpariaeth a defnydd tystiolaeth diriogaethol traws-Ewropeaidd, gymaradwy, systematig a dibynadwy wrth greu polisi.

Bydd y Rhaglen yn canolbwyntio ar wella gallu sefydliadol a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithlon drwy gryfhau gallu sefydliadol, effeithlonrwydd gweinyddiaethau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gweithredu ERDF. Bydd y Rhaglen hefyd yn cefnogi camau gweithredu yng nghyswllt gallu sefydliadol ac effeithlonrwydd gweinyddiaeth gyhoeddus a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Anogir cysylltiadau agosach rhwng ESPON a Rhaglenni ETC eraill yn ystod cyfnod Rhaglen 2014-2020.

Mae un Echel Flaenoriaeth weithredol yn y rhaglen hon a phum Amcan Penodol.

| Echel Flaenoriaeth | Amcanion Penodol |
|---|---|
| Tystiolaeth Diriogaethol, Trosglwyddo, Arsylwi, Offer ac Allgymorth | Cynhyrchu gwell tystiolaeth diriogaethol trwy ymchwil gymhwysol a dadansoddi;<br><br>Trosglwyddo gwybodaeth a chefnogaeth ddadansoddol i ddefnyddwyr wedi eu huwchraddio;<br><br>Gwella arsylwi tiriogaethol ac offer ar gyfer dadansoddiadau tiriogaethol;<br>Allgymorth a defnydd ehangach o dystiolaeth diriogaethol;<br><br>Darpariaethau gweithredu llai gwastraffus, mwy effeithiol ac effeithlon a chymorth mwy hyfedr i'r rhaglen. |

Yr Awdurdod Rheoli yw'r Weinyddiaeth Datblygu Cynaliadwy a Seilwaith, Yr Adran Gynllunio Gofodol a Datblygu (DATer), Is-adran Materion Ewropeaidd, sydd wedi'i lleoli yn Lwcsembwrg.

Cafodd y rhaglen ei chymeradwyo'n ffurfiol yn Chwefror 2015.

Mae WEFO wedi bod yn olrhain datblygiadau gyda'r Rhaglen ESPON ac wedi ymchwilio a gwneud defnydd o nifer o gyhoeddiadau wrth baratoi ar gyfer y rhaglenni newydd.

Mae Rhaglenni ETC yn derbyn cefnogaeth gan y rhaglen **INTERACT,** sy'n cynnwys 28 aelod-wladwriaeth yr UE yn ogystal â Norwy a'r Swistir, ac yn werth €39m o ran cyllid o WEFO. INTERACT yw'r hwb ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arfer gorau ymhlith rhaglenni ETC.

Mae gan bob un o'r rhaglenni broses benodol ar gyfer gwneud cais gan eu bod yn cael eu gweinyddu gan Aw

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.wefo.llyw.cymru**
**@wefocymru/@wefowales**

**Ymholiadau: 0845 010 3355**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**

**EU Funds:**
**Investing in Wales**